**Mae Mynyw yn derbyn ei Hesgob newydd**

Roedd yr Eglwys Gadeiriol Sant Ioseff yn Abertawe yn llawn o bobl o bob rhan o Esgobaeth Mynyw ar 23 Mehefin 2022 ar gyfer Offeren Gorseddiad yr Esgob newydd Mynyw, y Gwir Barchedig Mark O'Toole.

Cafodd Ei Ras, yr Archesgob O'Toole, ei benodi gan y Pab Ffransis i fod yn Esgob Archesgobaeth Caerdydd ac Esgobaeth Mynyw, a digwyddodd ei sefydlu yng Nghaerdydd ychydig ddyddiau ynghynt ar 20 Mehefin.

Wedi penlinio a gweddïo'n dawel wrth ddrysau yr Eglwys Gadeiriol, cusanodd yr Esgob newydd y Croeshoeliad a roddwyd iddo gan Brofost y Glwysgor Canoniaid, ac thaenellodd y gynulleidfa â Dŵr Sanctaidd. Yna aeth yr Archesgob Mark i'r allor lle gweddïodd yr Archesgob George Stack, Gweinyddwr Apostolaidd Esgobaeth Mynyw hyd yn hyn, dros yr Esgob newydd a'i orseddu yng Nghadair (*Cathedra*) yr Esgob. Yna rhoddwyd y crozier, neu staff y bugail, i'r Archesgob Mark, tra roedd yr Archesgob George yn gweddïo,

> "Bydded i'r Arglwydd eich cynnal wrth i chi wylio dros holl braidd yr Esgobaeth hon, y mae'r Ysbryd Glân wedi eich neilltuo chi'n Esgob iddi, i wasanaethu'r Eglwys Duw hon.

**Gyda chariad Duw yn fy nghalon**

Yna derbyniodd yr Archesgob Mark ei weinidogaeth newydd, "gyda ffydd yn ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw yn fy nghalon." Roedd cariad Duw yn thêm y dychwelodd yr Archesgob Mark ato dro ar ôl tro trwy gydol yr Offeren.

Yn ei Homili, cyfeiriodd Ei Ras at gariad Duw fel ffordd o ddeall yr hyn yr oedd Duw yn ei wneud trwy ei benodiad yn Esgob esgobaethau Caerdydd a Mynyw. Pwysleisiodd yr Archesgob nad yw'r "cynllun neu'r prosiect bugeiliol nesaf" yn ganolog i ddyfodol y ddwy esgobaeth, ond y lle canolog a feddiannir ym mywydau pob un ohonom gan Iesu Grist.

Rhannodd yr Archesgob Mark â'r gynulleidfa fod "Duw wedi arfer tyniad magnetig dros fy nghalon ers yn 17 oed." Mae'r cariad amlwg hwn at Iesu, yr Anwylyd, yn tynnu pob un ohonom ato mewn disgyblaeth ac mewn perthynas agos.

**Ardrawiad y "digwyddiad" Iesu Grist yn ein bywydau**

Nid oes pwynt, meddai'r Archesgob, wrth uno'r ddwy esgobaeth â'i gilydd *in persona Episcopi* (ym mherson yr Esgob), "os nad yw'n cael effaith wirioneddol ar y modd y mae pob un ohonom yn ymateb i gariad yr Arglwydd, ac yn ceisio helpu eraill i ddarganfod a charu Ef hefyd."

Ategwyd y teimlad hwn gan yr Esgob Edwin Regan, Esgob *Emeritus* Mynyw, a siaradodd ar ddiwedd yr Offeren. Awgrymodd yr Esgob Regan mai'r cwestiwn anghywir i'w ofyn i Esgob newydd yw, "Beth ydych chithau'n mynd i'w wneud am ein sefyllfa?" Yn lle hynny, fe ddylen ni i gyd fod yn gofyn i'n hunain, "Sut ydw innau'n mynd i ymateb i'r cyfle newydd hwn?"

Dathlwyd yr Offeren ar Ŵyl yr Enedigaeth Sant Ioan Fedyddiwr. Cyfeiriodd yr Archesgob Mark at Efengyl y dydd lle gofynnwyd y cwestiwn ynghylch Ioan Fedyddiwr, "Beth fydd y plentyn hwn?"

Nododd Ei Ras fod y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn gan bob rhiant am ei blant, a dywedodd ei fod hefyd wedi'i ofyn amdano gan ei rieni ei hun. Roedd Mam yr Archesgob ac aelodau eraill o'i deulu yn bresennol yn yr Offeren ym Mynyw ac yng Nghaerdydd i ddangos eu cariad a'u cefnogaeth wrth i'r Archesgob Mark gael ei osod yn ei rolau newydd.

Roedd llawer o blant a phobl ifanc o ysgolion ar draws yr Esgobaeth hefyd yn bresennol yn yr Offeren.  Dywedodd yr Archesgob newydd wrthynt fod yr un cwestiwn yn cael ei ofyn amdanyn hwy, "Beth fydd y plentyn neu'r person ifanc hwn?"

Roedd Ioan Fedyddiwr yn pwyntio'r ffordd at Iesu, a thrwy dystiolaeth Ioan fe newidiwyd bywydau'r Apostolion am byth wrth iddyn nhw gwrdd â Iesu drostynt eu hunain. Felly hefyd, mae Ioan yn nodi ar ein cyfer, "Dyna Oen Duw", er mwyn i ninnau hefyd gael ein newid trwy ein cyfarfyddiad ein hunain â'r Arglwydd.

**Gwnewch y pethau bychain**

Wrth annerch y Gadeirlan yn Gymraeg, rhannodd yr Archesgob O'Toole eiriau Dewi Sant, "Gwnewch y pethau bychain! Byddwch lawen a chadwch y Ffydd." Ategwyd y teimlad hwn yng ngeiriau cynnes yr Archesgob at y partneriaid dinesig, eciwmenaidd a rhyng-ffydd a oedd yn bresennol yn yr Offeren: "Rydym am gydweithio, hyd yn oed mewn ffyrdd bach, i adeiladu mannau lloches yn ein heglwysi ac yn ein cymunedau."

Dywedodd yr Archesgob wrth y gynulleidfa mai 'Croeso' oedd y gair a glywodd yn amlaf ers iddo gyrraedd yng Nghymru. "Mae ysbryd hael Cymru, sydd â gwreiddiau ysbrydol dwfn, yn cael ei fynegi yn y gair hwn, 'Croeso'". Mynegodd yr Archesgob Mark ei ddymuniad i ni barhau, yn dilyn esiampl Dewi Sant a'r holl seintiau Celtaidd, i weithio er mwyn i'n cymunedau ddod yn lleoedd croeso a noddfeydd.

Mynegodd yr Archesgob Mark ddiolch diffuant i'r Archesgob George yn ogystal â chyn Esgobion Mynyw oedd hefyd yn bresennol. Diolchodd yr Archesgob hefyd i'w "gydfrodyr offeiriadol" am eu ffyddlondeb, a rhoddodd sicrwydd iddynt "fod eich bywydau offeiriadol yn flaenoriaeth i mi."

Diolchodd Ei Ras hefyd i holl ffyddloniaid cysegredig a lleyg yr Esgobaeth, yn ogystal â'r seminarwyr.  Mynegodd ei weddïau a'i ddymuniadau da yn arbennig i Greg Beckett sydd i gael ei urddo'n Ddiacon yn fuan. ar ei lwybr i gael ei urddo'n Offeiriad ar gyfer yr esgobaeth.

Roedd yr Archesgob yn dymuno i bob un ohonom fyfyrio'n bersonol ar sut y gallem sylweddoli mai Iesu yw'r digwyddiad pwysicaf yn ein bywydau, a'i fod eisiau cyfeillgarwch agos a dwfn â ni; ac i ofyn i ni ein hunain sut y gallwn gael ein llenwi unwaith yn rhagor â brwdfrydedd ac egni drosto Ef ?

Ar ôl dechrau Offeren ei Orseddiad trwy oleuo'r gannwyll yn llaw Mair y Tapr, rhodd yr Archesgob O'Toole fywyd a chenhadaeth pawb yn yr esgobaeth i'w gofal. "Boed iddi oleuo'r llwybr o'n blaenau, a'n harwain at ei Mab."